



Trawsnewid eich Gwasanaethau CHI

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel llawer o gynghorau eraill ledled Cymru, yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, felly, er mwyn sicrhau arbedion, mae angen i ni newid a gwella'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn wynebu diffyg o £66 miliwn yn y gyllideb dros y 3 blynedd nesaf, felly, yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi cychwyn ar raglen drawsnewid fawr ac mae llawer o waith yn cael ei wneud i ddatblygu amrywiaeth o gynigion uchelgeisiol i ailfeddwl ac ail-lunio'r ffordd rydyn ni'n gwneud busnes.

Mae'r pwysau ariannol parhaus ynghyd â'r galw cynyddol am ein gwasanaethau yn golygu bod angen i ni wneud pethau'n wahanol os ydyn ni am ddiwallu anghenion pobl leol yn y ffordd orau.

Rydyn ni'n adolygu ein gwasanaethau i nodi arbedion effeithlonrwydd, yn ogystal â defnyddio llai o adeiladau, bod â mwy o feddwl busnes a gwneud ein gwasanaethau ni'n fwy hygyrch.

Mae'n bwysig bod trigolion yn cael y cyfle i ddweud eu dweud yn y broses hon, felly, byddwn ni'n ymgysylltu â'r gymuned i ddeall eich anghenion chi a darparu'r cymorth cywir.

Rydw i'n gwerthfawrogi'n llwyr nad yw'r broses hon yn mynd i fod yn hawdd, ond dyma'r peth iawn i'w wneud ac rydych chi, ein cymuned leol, yn haeddu dim llai.

Drwy gydweithio fel Tîm Caerffili, rydyn ni'n gallu creu dyfodol gwell i bawb a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau cyffrous.



Y Cyng. Sean Morgan
Arweinydd y Cyngor

Gweler tudalen 5 am ragor o wybodaeth am y gyllideb ac i weld ein cynlluniau ni ar gyfer newid cadarnhaol.

Bwrdeistref Sirol Caerffili

Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol 2023-2028

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi ein cyfeiriad, ein blaenoriaethau a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r amcanion llesiant newydd yn ein helpu i lunio gwasanaethau, targedu ein hadnoddau a blaenoriaethu ein hymdrechion wrth i ni barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cymunedau.

Yn yr un modd â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru, rydyn ni'n parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, ond rydyn ni'n dal i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol.

Rydyn ni'n gwybod bod yn rhaid i ni addasu i gwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu, gan ganolbwyntio ar hyblygrwydd a dod o hyd i wahanol ffyrdd o gyflawni'r hyn sydd ei angen ar ein cymunedau, pan fydd ei angen arnyn nhw. Drwy gydweithio, gallwn ni greu dyfodol gwell i'n holl drigolion.



Signature of Sean Morgan

Y Cyngorydd Sean Morgan
Arweinydd y Cyngor

Os ydyn ni am gyflawni'r amcanion allweddol sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon yn llwyddiannus, wrth weithredu o fewn y dirwedd heriol hon, mae'n amlwg bod angen i ni ailfeddwl ac ail-lunio'r hyn a wnawn a sut rydyn ni'n ei wneud.

Byddwn ni'n cyflawni hyn drwy gyflenwi'r rhaglen newid fwyaf y mae'r Cyngor hwn erioed wedi'i hwynebu. Rhaglen drawsnewid heriol, gymhleth ond hynod gyffrous o'r enw 'Mwstro Tîm Caerffili' ac mae'r dull arloesol hwn bellach yn cyflymu ar draws y sefydliad wrth i ni ddechrau gweld cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud.

Nid yw hyn yn mynd i fod yn hawdd, ond dyma'r peth iawn i'w wneud oherwydd dyna mae ein cymunedau'n ei haeddu.



Signature of Christina Harrhy

Christina Harrhy
Prif Weithredwr



Tîm Caerffili

Yn Well gyda'n Gilydd



YCHYDIG AMDANOM NI...

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau i tua 176,000 o drigolion.

Mae gennym ni 69 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli 33 o wardiau.

Rydyn ni'n cynorthwyo 76,000 o aelwydydd.

Rydyn ni'n darparu dros 600 o wasanaethau 24/7 o'r crud i'r bedd.

Ni yw'r 5ed ardal awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Rydyn ni'n cwmpasu 108 milltir sgwâr (28,000 hectar) o dir yng nghalon de Cymru.

Rydyn ni'n cyflogi ychydig dros 8,000 o staff.

Canllaw cyflym i'n Cynllun Corfforaethol 2023-2028

				
Amcan 1 Galluogi ein plant i lwyddo mewn addysg.	Amcan 2 Galluogi ein trigolion i ffynnu.	Amcan 3 Galluogi ein cymunedau i ffynnu.	Amcan 4 Galluogi ein heconomi i dyfu.	Amcan 5 Galluogi ein hamgylchedd i fod yn wyrddach.
Byddwn ni wedi adeiladu arweinyddiaeth effeithiol i gynnal ein dyhead i bob dysgwr gyflawni safonau uchel a gwneud cynnydd cryf ar eu taith addysgol.	Byddwn ni wedi ymateb i'n demograffeg sy'n heneiddio gan gynnwys creu cymunedau oed-gyfeillgar.	Bydd ein seilwaith ffisegol a chysylltedd digidol wedi gwella i helpu pobl i gael mynediad i drefi, cymunedau a gwasanaethau.	Byddwn ni wedi gweithio tuag at sicrhau bod gennym ni'r seilwaith angenrheidiol yn ei le i alluogi ein heconomi a'n cymunedau i dyfu.	Byddwn ni wedi gweithio gyda'n trigolion i gyrraedd ein targedau statudol mewn perthynas â lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu.
Bydd gennym ni ddarpariaeth ddiogel a chynhwysol a fydd yn cefnogi cynnydd dysgwyr agored i niwed a difreintiedig	Byddwn ni wedi cwrdd ag anghenion ein plant a'n hoedolion mwyaf agored i niwed.	Byddwn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i wella mynediad at ddulliau trafniadaeth gyhoeddus a dulliau eraill o drafniadaeth i gadw trefi yn gysylltiedig a gwella cyfleoedd teithio llesol rhwng cymunedau.	Byddwn ni wedi gweithio mewn partneriaeth i gefnogi busnesau gydag ystod o ymyriadau gyda'r nod o ysgogi'r economi leol.	Byddwn ni wedi lleihau ein hallyriadau carbon gweithredol i ddod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030.
Bydd gennym ni well sgiliau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd, digidol, corfforol a sgiliau ehangach i roi gwell cyfleoedd bywyd i'n dysgwyr.	Byddwn ni wedi galluogi'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol i helpu ein trigolion.	Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella lles a disgygliad oes iach ein cymunedau.	Bydd gennym ni berthynas gryfach gyda'n Cymuned Fusnes trwy adfywio canol trefi.	Byddwn ni wedi helpu ein cymunedau i drosglwyddo i drafniadaeth carbon isel.
Bydd dysgwyr wedi cael cymorth effeithiol i sicrhau bod cyrchfannau ôl-16 yn briodol ac yn gynaliadwy.	Byddwn ni wedi helpu trigolion drwy'r argyfwng costau byw.	Byddwn ni wedi creu amodau sy'n galluogi ein cymunedau i fod yn iachach ac yn fwy egniol.	Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) i gynyddu argaeledd cyfleoedd cyflogaeth o safon yn yr ardal a gwella ein heconomi.	Byddwn ni wedi hyrwyddo ac archwilio cyfleoedd ynni gwyrdd i'r Cyngor, cymunedau a busnesau.
Byddwn ni wedi adeiladu ysgolion a lleoliadau newydd ac wedi'u hadnewyddu, gan greu amgylcheddau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli.	Byddwn ni wedi adeiladu tai Cyngor newydd, darparu rhagor o dai fforddiadwy, dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio tuag at atal digartrefedd.	Bydd gennym ni fannau agored deniadol sy'n gwella ansawdd bywyd.	Bydd gan ein gweithlu lleol y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yn lleol ac yn rhanbarthol.	Byddwn ni wedi gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol i wella bioamrywiaeth a'n gwneud ni'n fwy gwydn i newid hinsawdd.
				Byddwn ni wedi gosod safonau hinsawdd ar gyfer Tai Cyngor sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd ac wedi gweithio i wella rhinweddau ynni gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni ein stoc tai.

Mae'r cynllun llawn ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor:
www.caerffili.gov.uk

Fel arall, cysylltwch â:

Ros Roberts - Rheolwr Gwella Busnes
f: 01443 864238 e: roberr@caerffili.gov.uk

SUT BYDDWN NI'N CYFLENWI EIN HAMCANION LLESIANT?

Mae gan y Cyngor cyfan, ein harweinwyr gwleidyddol, ein Tîm Rheoli Corfforaethol, a'n gweithwyr, gyfrifoldeb i gyflwyno'r Amcanion Llesiant ac i weithio tuag at y datganiadau canlyniad ar ran y Fwrdeistref Sirol.

Cafodd ein Hamcanion Llesiant eu datblygu o dan arweiniad y weinyddiaeth wleidyddol ac mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd. Maen nhw ar gyfer y Cyngor cyfan, a chyfrifoldeb y Tîm Rheoli Corfforaethol yw eu cyflenwi.

Er eu bod nhw'n cael eu diffinio fel set o Amcanion sy'n wynebu tuag allan, mae eu cyflenwi nhw ynghyd â'r mecanweithiau i'w cyflawni wedi'u gwreiddio'n gadarn yn narpariaeth gwasanaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd.

Ail-lunio'r Cyngor i gwrdd â'r her

Fe wnaethon ni gychwyn ar ein taith i drawsnewid y Cyngor a sefydlu ethos Tîm Caerffili - yn well gyda'n gilydd yn 2020. Mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn i ni adeiladu ein rhaglen trawsnewid sefydliad cyfan. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn ail-lunio ac ailffocysu sut rydyn ni'n gweithredu fel cyngor a sut rydyn ni'n ail-lunio darparu gwasanaethau, gan gadw ein ffocws drwy'r amser ar ddiwallu anghenion ein dinasyddion. Bydd ein hymdrechion uniongyrchol yn canolbwyntio ar:

- **Gwella taith ein cwsmeriaid**
- **Trawsnewid ein ffyrdd mewnol o weithio i sicrhau arbedion effeithlonrwydd**
- **Cydweithio gyda'n partneriaid i ddod yn fwy effeithiol**
- **Sicrhau y gallwn ni addasu i newidiadau a symud ein gwasanaethau i ffyrdd newydd o weithio yn gyflym**
- **Sicrhau bod ein hysgolion, tai cymdeithasol, safleoedd hamdden a gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer y dyfodol**
- **Parhau i ddatblygu ein seilwaith ffisegol i adfywio'r Fwrdeistref Sirol**

Buddsoddi yn eich cymuned CHI



Mae strategaeth fawr, sydd â'r nod o annog rhagor o bobl ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili i fod yn fwy egniol, wedi sicrhau manteision sylweddol yn ei 5 mlynedd gyntaf.

Ers ei rhoi ar waith, mae'r strategaeth wedi sicrhau bron i £3 miliwn o fuddsoddiad mewn amrywiaeth wefreiddiol o gyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys 5 cae pêl-droed a rygbi 3G defnydd deuol newydd, canolfan athletau, canolfan hoci, ac adnewyddu ac ailddatblygu ystafelloedd ffitrwydd mewn 2 ganolfan hamdden.

Mae Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol 2019-2029 Cyngor Caerffili yn gynllun 10 mlynedd a gafodd ei gymeradwyo yn ôl yn 2018.

Mae rhywfaint o'r buddsoddiad sy'n deillio o Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol y Cyngor hyd yma yn cynnwys:

- **£390,000** - Canolfan hoci newydd yng Nghanolfan Hamdden Sue Noake, Ystrad Mynach, a chae 3G newydd yn Ysgol Idris Davies.
- **£315,000** - Cae 3G newydd, ffensys, goleuadau ac ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Bedwas.
- **£755,000** – Canolfan athletau newydd yn Oakdale ger Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd.
- **£110,000** – Cae 3G newydd yn Ysgol Gymunedol Sant Cenydd.



- **£90,000** – Cae 3G newydd yn Ysgol Lewis Pengam.
- **£90,000** – Cae 3G newydd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.
- **£73,000** - Menter Cwrt Cruyff Aaron Ramsey yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod.
- **£15,445** - Rhaglen ail-wynebu cwrt pêl-law Nelson.
- **£875,000** wedi'i fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn (ystafell ffitrwydd, stiwdio ddawns a beicio, offer pwll ac adnewyddu ystafell newid).



- **£100,000** i adnewyddu'r ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Heolddu.
- **Yn dod yn fuan!** Canolfan Hamdden a Lles newydd gwerth **£33.6 miliwn** yng Nghaerffili.
- **Yn dod yn fuan!** Canolfan newydd ar gyfer Dysgwyr Agored i Niwed ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllanfraith, yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon cymunedol newydd.
- **Yn dod yn fuan!** Uwchraddio cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn a chae 3G bach yn Ysgol Gynradd Abercarn.



Mae'r strategaeth hefyd yn cwmpasu amrywiaeth o fentrau eraill sydd wedi helpu gwella lles cymunedol megis Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, Mentrau Datblygu Chwaraeon, Ysgolion Bro, prosiectau wedi'u targedu Teuluoedd yn Gyntaf a rhaglenni cerdded iach ac ati.

Yn fwy na thrwsio tyllau yn y ffordd a chasglu biniau!

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Caerffili gyllideb refeniw net flynyddol o £439 miliwn ac mae'r swm sylweddol hwn o arian yn cael ei ddefnyddio i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i gynorthwyo anghenion pobl o bob oed ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae cynghorau lleol yno i gynorthwyo trigolion o'r crud i'r bedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: cofrestru genedigaethau, ysgolion ac arlwyio ysgolion, gwasanaethau ieuencid, addysg bellach, chwaraeon a hamdden, priodasau, cymorth tai, diogelu'r cyhoedd, priffyrdd, cynllunio, gwastraff ac ailgylchu, cymorth busnes, gofal cymdeithasol, Pryd ar Glud a gwasanaethau profedigaeth. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r cannoedd o wasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'r gymuned ddydd a nos.

O ble mae'r arian yn dod?

Mae llawer o bobl yn credu bod Treth y Cyngor yn talu am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor, ond dim ond 18.9% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor yw'r elfen hon.




Dyma ddadansoddiad llawn o ble daeth yr arian yn 2023/24:

Cyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru	£340m	77.5%
Incwm Treth y Cyngor	£83m	18.9%
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	£16m	3.6%

Sut mae'r arian yn cael ei wario?

Mae mwyafrif helaeth cyllideb refeniw net y Cyngor yn cael ei wario ar addysg (39%) a gofal cymdeithasol (29%).

- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Economi a'r Amgylchedd
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Cyllid Amrywiol



Beth yw cronfeydd wrth gefn?

Mae'r Cyngor yn aml yn cael ei gwestiynu ynghylch faint o arian sydd ganddo yn y cronfeydd wrth gefn, ond mae'n bwysig nodi nad dim ond potyn o arian yn nwylo'r Cyngor yw cronfeydd wrth gefn. Mae mwyafrif helaeth y cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi ar gyfer defnydd penodol - megis adeiladu ysgolion newydd neu dai cyngor - ac nid oes modd defnyddio'r arian hwn ar gyfer unrhyw beth arall.

Cyfran lai o'r cronfeydd wrth gefn sydd ddim wedi'u clustnodi ar gyfer prosiectau penodol ac mae modd eu defnyddio at ddibenion eraill, megis llenwi bwlch yn y gyllideb, ond unwaith y bydd y cronfeydd hyn wedi cael eu defnyddio, maen nhw wedi diflannu am byth.



Sut mae sefyllfa'r gyllideb yn edrych?

Dros y 3 flynedd nesaf, mae'r Cyngor yn wynebu diffyg o tua £66 miliwn yn y gyllideb. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion y setliad ariannol dros dro ar gyfer 2024/25 ac roedden ni'n rhagweld cynnydd o 2.7%. Fodd bynnag, rydyn ni'n debygol o gael 2.3% - felly bydd y bwlch cyllidebol ar gyfer 2024/25 nawr yn cynyddu £1.5 miliwn yn ychwanegol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y gyllideb, mae'r Cyngor yn edrych ar ffyrdd o ailfeddwl ac ail-lunio'r ffordd mae'n darparu llawer o'i wasanaethau i nodi arbedion effeithlonrwydd a chyflawni gwelliannau.

Bydd rhaglen drawsnewid gyffrous o'r enw Mwstro Tim Caerffili yn arwain at nifer o newidiadau cadarnhaol megis trawsnewid y modd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gwella trafodion cwsmeriaid a darparu ffyrdd haws o gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor.

Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn rhan allweddol o'r broses hon, felly, cadwch lygad am ragor o wybodaeth am sut y gallwch chi gymryd rhan a dweud eich dweud.

Tîm Caerffili
Yn Well gyda'n Gilydd





Mae'r ffordd rydych chi'n defnyddio Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi yn newid

O **12 Chwefror 2024** bydd yn ofynnol i'r holl drigolion wahanu ailgylchu a gwastraff cyffredinol gartref, cyn ymweld â'u Canolfan Ailgylchu i Gartrefi leol.



Gallai tua 50% o'r hyn sy'n cael ei roi mewn sgipiau gwastraff cyffredinol gael ei ailgylchu! Dewch i ni ddioli ein gwastraff i helpu cyrraedd ein targed ailgylchu o 70% a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

SYNIAD DA

Dewch ag unrhyw ddeunydd ailgylchu mewn bocsys neu gynwysyddion sy'n gallu cael eu haildefnyddio i arbed amser!

Os byddwch chi'n dod ag unrhyw wastraff i'n Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi mewn bagiau, byddwn ni'n gofyn i chi eu hagor er mwyn sicrhau nad oes unrhyw eitemau ailgylchadwy y tu mewn.



Am ragor o wybodaeth, sganiwch y cod QR, ymweld â <https://www.caerffili.gov.uk/canolfannau-ailgylchu> neu ffonio 01443 866533

EICH TASG CHI YW:



Tynnu unrhyw ddeunyddiau ailgylchadwy o'ch gwastraff cyffredinol chi.



Ailgylchu popeth y gallwch chi.



Sortio deunyddiau ailgylchadwy a'u rhoi nhw yn y cynwysyddion cywir.



Gofyn unrhyw beth i'n gweithwyr ni, sydd ar gael i helpu.

Rheoliadau Ailgylchu'r Gweithle

O 6 Ebrill 2024 ymlaen, bydd yn gyfraith i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus i ddioli eu gwastraff er mwyn ei ailgylchu. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r gyfraith hon i wella ansawdd y ffordd rydyn ni'n casglu a gwahanu gwastraff a chynyddu'r gwaith hwn.

Am ragor o wybodaeth a chanllawiau, ewch i:

www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle

Nodyn Atgoffa: Peidiwch ag anghofio NA CHANIATEIR gwastraff masnachol mewn biniau cartref, biniau sbwriel neu mewn Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi. Os bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn casglu gwastraff ac ailgylchu eich sefydliad, byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi yn fuan gyda rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn.

Pa wastraff sydd angen ei wahanu:

Bydd angen gwahanu'r deunyddiau canlynol i'w casglu ar wahân:

- Bwyd
- Papur a cherdyn
- Gwydr
- Metelau, plastig a chartonau
- Tecstilau heb eu gwerthu
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach sydd heb eu gwerthu (sWEEE)



Beth sy'n gallu cael ei ailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi?

Sicrhewch eich bod chi'n ymweld â Chanolfan sy'n gallu derbyn eich holl wastraff cartref.

Aberbargod

Ystâd Ddiwydiannol Bowen, CF81 9EP

- ✓ Batris ceir
- ✓ Cardbord
- ✓ Matresi
- ✓ Paent
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Tecstilau
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Tiwbiau fflworoleuol
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig mawr
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Cyfarpar domestig bach
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Crosskeys

Ystâd Ddiwydiannol y Lleuad Lawn, NP11 7BD

- ✓ Asbestos
- ✓ Batris ceir
- ✓ Cardbord
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Matresi
- ✓ Bwrdd plastr
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Tiwbiau fflworoleuol
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Cartonau bwyd a diodydd
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig bach/mawr
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Penallta

Ystâd Ddiwydiannol Penallta, CF82 7ST

- ✓ Asbestos
- ✓ Cardbord
- ✓ Batris ceir
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Bwrdd plastr
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Tiwbiau fflworoleuol
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Silindrau/poteli nwy
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig mawr
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Cyfarpar domestig bach
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Caerffili

Trehir, CF83 3RP

- ✓ Batris ceir
- ✓ Cardbord
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Matresi
- ✓ Plastig
- ✓ Tiwbiau fflworoleuol
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig mawr
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Cyfarpar domestig bach
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Penmaen

Ystâd Ddiwydiannol Penmaen, NP12 2XZ

- ✓ Caniau
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Carpedi
- ✓ Matresi
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Tiwbiau fflworoleuol
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig mawr
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Cyfarpar domestig bach
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Rhymni

Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, NP22 5PW

- ✓ Batris ceir
- ✓ Cardbord
- ✓ Gwastraff o'r ardd
- ✓ Rwbel
- ✓ Matresi
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Metel sgrap
- ✓ Dodrefn wedi'u datgymalu
- ✓ Batris cartref
- ✓ Cyfarpar domestig mawr
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Cyfarpar domestig bach
- ✓ Setiau teledu a monitorau

Trafodaeth Caerffili

Dweud eich dweud ar y Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu ddrafft 2023-28 – 'I 70% a thu hwnt'

Pam fod angen newid?

Mae Caerffili, fel pob cyngor yng Nghymru, yn gweithio tuag at darged Llywodraeth Cymru ar gyfer 'y dyheadau cyffredinol o gael sero gwastraff' erbyn 2050. Gyda hynny, mae targedau ailgylchu heriol i gynghorau.

Y targed presennol y mae'n rhaid i gynghorau ei gyrraedd yw 64%, gan gynyddu i darged ailgylchu o 70% erbyn 2024/25. Ar hyn o bryd, mae perfformiad ailgylchu Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 59%, sef ymhell islaw'r targed wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru.

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor mewn perygl gwirioneddol o orfod talu dirwyon sylweddol (tua £200,000 y pwynt canran yn is na'r targed) am beidio â chyrraedd y targedau perfformiad.

Ar hyn o bryd, yng Nghaerffili:

- Rydyn ni'n meddu ar y lefel uchaf o wastraff gweddilliol (sbwriel) fesul person yng Nghymru.
- Mae bron i hanner y cynnwys yn ein biniau gwastraff gweddilliol (sbwriel) yn cynnwys deunydd sy'n gallu cael ei ailgylchu.


Yn syml iawn, nid yw gwneud dim yn opsiwn.

Mae'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu ddrafft wedi'i datblygu i amlinellu sut mae'r Cyngor, gan gydweithio â'i drigolion, yn gallu cyrraedd targed ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 24/25 a gweithio tuag at ddim gwastraff erbyn 2050.

Y nod cyffredinol yw lleihau cyfanswm y gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu drwy annog pobl i ailgylchu rhagor o'u gwastraff. Yn y pen draw, bydd hyn yn caniatáu i ni weithio tuag at Economi Gylchol, lleihau ôl troed carbon a dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau.

Mae hyn mor bwysig i ni ac mor bwysig i chi a chenedlaethau'r dyfodol, felly, byddem ni'n gwerthfawrogi'n fawr pe gallech chi roi ychydig o amser i gynnig eich barn chi i ni ar y cynigion hyn – gan mai dim ond drwy gydweithio y gallwn ni gyrraedd y targedau hyn.

Mae'n amlwg na allwn ni wneud y newidiadau sylweddol gofynnol ar ein pen ein hunain a bydd ymdrech ar y cyd gan drigolion, y gweithlu a'r gymuned ehangach yn hanfodol i leihau'r defnydd o adnoddau yng Nghaerffili a gwella eu rheoli. Fel corff cyhoeddus, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda'n cymunedau i ddiogelu effaith hirdymor ein penderfyniadau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (2021).



Treuliwch ychydig o amser yn dweud eich dweud ar y cynigion sydd wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol. Bydd yr ymgynghoriad 12 wythnos yn weithredol o 5 Chwefror 2024 tan 29 Ebrill 2024.

Unwaith y bydd wedi'i lenwi, dychwelwch yr arolwg i unrhyw un o brif swyddfeydd y Cyngor, neu'ch llyfrgell/canolfan hamdden agosaf. Os yw'n well gennych chi, mae modd hefyd ei ddychwelyd drwy'r post at: **Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG.**

Dychwelwch yr arolwg ar y tudalennau canlynol erbyn DYDD LLUN 29 EBRILL 2024.

Fel arall, gallwch chi ddweud eich dweud drwy lenwi'r arolwg ar-lein:

Yn syml, agorwch y camera ar eich ffôn, hofran dros y cod QR a byddwch chi'n cael eich cyfeirio at yr arolwg.



Mae modd dod o hyd i'r arolwg hefyd yn: <https://conversation.caerphilly.gov.uk/draft-waste-strategy-consultation>

Hysbysiad preifatrwydd: Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar eich gwybodaeth a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i:

www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys.aspx

Arolwg Trigolion - Dweud eich dweud:

Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu Ddrafft 2023-28

Er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 24/25 a gweithio tuag at ddim gwastraff erbyn 2050, mae'r Cyngor yn cynnig canolbwyntio ar:

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai dyma'r meysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnyn nhw?	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Lleihau cyfanswm y gwastraff y mae angen ei waredu (gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu).	☐	☐	☐
Cynyddu cyfleoedd atgyweirio ac ailddefnyddio.	☐	☐	☐
Cynyddu cyfrannedd ac ansawdd y deunydd sy'n cael ei ailgylchu.	☐	☐	☐
Optimeiddio cyfrannu at ynni adnewyddadwy a'r defnydd ohono.	☐	☐	☐
Helpu ein trigolion ni i reoli deunyddiau mewn modd mwy cynaliadwy.	☐	☐	☐

Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r meysydd ffocws hyn, dywedwch pam wrthym ni:

A oes unrhyw feysydd eraill y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnyn nhw i helpu cyrraedd y nod o gael sero gwastraff erbyn 2050?

Er mwyn helpu cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gamau gweithredu/newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Hoffem ni wybod eich barn chi ar bob un o'r cynigion hyn.

Casgliadau Wrth Ymyl Y Ffordd - Ailgylchu Deunyddiau Sych

Nid yw'r system bresennol ar gyfer casglu deunyddiau sych i'w hailgylchu yn cydymffurfio â Glasbrint Llywodraeth Cymru. Mae angen i ni wella ansawdd ailgylchu a lleihau halogiad. Ar ôl edrych ar yr hyn sydd wedi gweithio mewn meysydd eraill, mae angen i ni gyflwyno system o gasglu gwastraff i'w ailgylchu.

Ar hyn o bryd, ydych chi'n ailgylchu deunyddiau bin brown/blwch ailgylchu/bagiau ailgylchu yn wythnosol wrth ymyl y ffordd?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os nad ydych chi, dywedwch pam wrthym ni:

Cynnig: Cyflwyno gwahanu deunyddiau sych i'w hailgylchu. Y cynnig yw cyflwyno'r defnydd o sachau hesian pwysol a blychau ar gyfer gwahanu ailgylchu. Bydd rhaid gwahanu cardbord, gwydr a chaniau a phlastig yn dri chynhwysydd ar wahân i'w casglu.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig hwn yn ein helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol ni?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno

☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi'n dweud hyn:

Ydych chi'n teimlo y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar eich cartref chi?

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn hwn:

Os bydd yn cael effaith negyddol arnoch chi a'ch cartref, dywedwch wrthym ni sut rydyn ni'n gallu helpu lleihau'r effaith, e.e. cynwysyddion amgen (ar gost i'r cartref unigol):

Ailgylchu Gwastraff Organig Wrth Ymyl Y Ffordd

Rydyn ni wedi bod yn annog trigolion i ailgylchu gwastraff bwyd ac yn gwneud yn siŵr bod trigolion yn deall beth i'w ailgylchu a pham mae angen i ni wneud hyn. Bydd yr ymgyrch Gweddillion am Arian yn parhau fel cymhelliant i gymryd rhan mewn ailgylchu gwastraff bwyd, (mae'r ymgyrch hon yn cael ei hariannu gan y sector preifat ac nid gan y Cyngor). Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth, ond mae llawer o drigolion yn dal i roi gwastraff bwyd yn eu biniau gwastraff cyffredinol. Mewn arolwg blaenorol, dywedodd llawer o drigolion wrthym ni y bydden nhw'n fwy tebygol o ailgylchu gwastraff bwyd pe bai ganddyn nhw fagiau cadï. Am gyfnod prawf o 1 flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno darparu bagiau cadï am ddim i holl drigolion y Fwrdeistref Sirol.

Ar hyn o bryd, ydych chi'n ailgylchu gwastraff bwyd yn wythnosol wrth ymyl y ffordd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

Os nad ydych chi, dywedwch pam wrthym ni:

Casglu gwastraff yr ardd

Mewn arolwg diweddar, awgrymodd trigolion fod gwastraff yr ardd yn gallu cael ei gasglu'n llai aml. Roedd awgrymiad hefyd y byddai casglu gwastraff yr ardd tymhorol yn fwy priodol gan mai ychydig iawn sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn ystod misoedd y gaeaf. Cyn i ni ystyried y cynnig hwn ymhellach, hoffem ni glywed eich barn chi ar sut y byddai'r newid hwn yn effeithio arnoch chi.

Cynnig: Lleihau amllder casglu gwastraff yr ardd o bob wythnos i bob pythefnos yn ystod misoedd yr haf yn unig (mis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref).

Ar hyn o bryd, ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd/yr ardd wythnosol?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

Os nad ydych chi, dywedwch pam wrthym ni:

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig i gasglu gwastraff yr ardd bob pythefnos ac yn dymhorol yn ein helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol?

Casgliadau gwastraff yr ardd bob pythefnos (yn wythnosol ar hyn o bryd):

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod

Casgliadau gwastraff yr ardd tymhorol – o fis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref (drwy gydol y flwyddyn ar hyn o bryd):

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi'n dweud hyn ar gyfer y ddau gynnig:

Ydych chi'n teimlo y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar eich cartref chi?

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn hwn:

Os bydd yn cael effaith negyddol arnoch chi a'ch cartref, dywedwch wrthym ni sut rydyn ni'n gallu helpu lleihau'r effaith:

Casglu Gwastraff Gweddilliol Wrth Ymyl Y Ffordd (Gwastraff Cyffredinol)

Cynnig: Lleihau amllder casglu biniau sbwriel (gwastraff gweddilliol). Gyda’r targedau uchelgeisiol y mae’n rhaid i’r Cyngor eu cyflawni, nid yw hyn yn gynaliadwy. Er mwyn annog trigolion i gyfrannu’n fwy at ailgylchu ac ailgylchu gwastraff bwyd, (bin ailgylchu brown/blwch/bag), mae’n rhaid i’r Cyngor gynnig newid amllder casgliadau sbwriel (gwastraff gweddilliol) o bob pythefnos, fel y maen nhw ar hyn o bryd. Mae cynghorau eraill ledled Cymru eisoes wedi gwneud hyn ac mae’r newid hwn yn dod â pherfformiad ailgylchu uwch. **Yn syml, nid yw casgliadau sbwriel bob pythefnos yn gallu aros fel ag y maen nhw. Drwy aros yr un fath, nid yw’r Cyngor yn gallu cyrraedd ei dargedau.**

Yn syml, nid yw casgliadau sbwriel bob pythefnos yn gallu aros fel ag y maen nhw. Drwy aros yr un fath, nid yw’r Cyngor yn gallu cyrraedd ei dargedau:

- ☐ **Casgliad 3 wythnos.** Rydyn ni wedi cyfrifo, os mae’n cael ei wneud yn gywir, mae’r newid hwn yn gallu arwain at ychydig dros 4% o wella yn ein cyfraddau ailgylchu ni. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ddigon i gyrraedd ein targedau ni wrth symud ymlaen, a byddai’n golygu y byddai’n rhaid i ni ailystyried opsiynau ar gyfer amllder casglu sbwriel eto (i bedair wythnos o bosibl) yn y tymor byr i ganolig (o fewn dwy flynedd).
- ☐ **Casgliad bob 4 wythnos.** Os ydy hyn yn cael ei wneud yn gywir, mae’n gallu arwain at ychydig dros 6.7% o wella yn ein cyfraddau ailgylchu ni.

Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y bydd lleihau amllder casglu sbwriel (gwastraff gweddilliol) yn ein helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol ni?

☐ **Cytuno**
☐ **Anghytuno**
☐ **Ddim yn gwybod**

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi’n dweud hyn:

Ydych chi’n teimlo y bydd y newid arfaethedig i amllder y casgliadau sbwriel (gwastraff gweddilliol) yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar eich cartref chi?

☐ **Cadarnhaol**
☐ **Negyddol**
☐ **Niwtral**

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn hwn:

Os ydych chi’n teimlo y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol arnoch chi a’ch cartref chi, dywedwch wrthym ni sut rydyn ni’n gallu helpu lleihau’r effaith:

Cynnig: Ehangu’r casglu o gynhyrchion hylendid amsugol. Rydyn ni’n cydnabod bod grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol/arbennig i ymdrin â’r math o wastraff a’r swm o wastraff sy’n cael ei gynhyrchu, megis cewynnau a chynhyrchion anymataliaeth. Wrth i amllder y gwasanaeth casglu sbwriel (gwastraff gweddilliol) leihau, mae cynnig y byddai’r Cyngor yn ehangu ei wasanaeth casglu **wythnosol** ar gyfer cynhyrchion hylendid amsugol ymhellach, gan ganiatáu i’r gwastraff arbenigol hwn gael ei ailgylchu. Byddai hwn yn parhau i fod yn wasanaeth sy’n seiliedig ar gais a bydd trigolion sydd angen y gwasanaeth hwn yn cael bagiau y byddwn ni’n eu casglu ar wahân.

Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y bydd ehangu’r gwasanaeth casglu cynhyrchion hylendid amsugol yn ein helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol ni?

☐ **Cytuno**
☐ **Anghytuno**
☐ **Ddim yn gwybod**

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi’n dweud hyn:

Ydych chi’n teimlo y bydd ehangu’r gwasanaeth casglu cynnyrch hylendid amsugol yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar eich cartref chi?

☐ **Cadarnhaol**
☐ **Negyddol**
☐ **Niwtral**

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi’n dweud hyn:

Os bydd yn cael effaith negyddol arnoch chi a’ch cartref, dywedwch wrthym ni sut rydyn ni’n gallu helpu lleihau’r effaith:

Adolygiad o Ganolfannau Ailgylchu i Gartrefi

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithredu chwe chanolfan ailgylchu i gartrefi. Ar draws y safleoedd, mae'r canolfannau ailgylchu i gartrefi ar agor 363 diwrnod y flwyddyn, rhwng 1 Ebrill a 30 Medi o 9am tan 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Sul a rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth o 9am tan 4.30pm, o ddydd Llun i ddydd Sul. Mae pob safle ar gau 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae'r amrywiaeth o'r hyn sy'n gallu cael ei ailgylchu yn wahanol ar draws y safleoedd. Rydyn ni eisoes wedi dechrau gwneud newidiadau i Ganolfannau Ailgylchu i Gartrefi i wella'r gwasanaeth yn y safleoedd hyn drwy benodi rhagor o staff i weithio ar y safleoedd, a byddwn ni'n cyflwyno didoli gwastraff ymlaen llaw cyn ymweld â'r safleoedd. Bydd hyn yn ein helpu ni i sicrhau bod rhagor o wastraff yn cael ei ailgylchu a bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Ydych chi wedi defnyddio Canolfan Ailgylchu i Gartrefi yn ystod y 12 mis diwethaf? ☐Ydw ☐Nac ydw

Os ydych chi, sawl gwaith ydych chi wedi defnyddio canolfan yn ystod y 12 mis diwethaf?

- ☐ Llai na 6 gwaith
- ☐ 6-10 o weithiau
- ☐ Mwy na 10 o weithiau

Pa ganolfan ydych chi'n ei defnyddio amlaf?

- ☐ Aberbargod - Ystâd Ddiwydiannol Bowen
- ☐ Crosskeys - Y Lleuad Lawn
- ☐ Llanbradach - Trehir
- ☐ Ystâd Ddiwydiannol Penallta
- ☐ Pontllan-fraith - Penmaen
- ☐ Rhymni - Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt

Cynnig: Adolygu darpariaeth bresennol y Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi. Byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad cyffredinol yn nifer y canolfannau. Byddai hyn yn caniatáu rhagor o oriau agor yn y safleoedd sy'n weddill.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig hwn yn ein helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol ni?

- ☐ Cytuno
- ☐ Disagree
- ☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi'n dweud hyn:

Ydych chi'n teimlo y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar eich cartref chi?

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral

Dywedwch wrthym ni pam rydych chi'n dweud hyn:

Os ydych chi'n teimlo y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol arnoch chi a'ch cartref, dywedwch wrthym ni sut rydyn ni'n gallu helpu lleihau'r effaith:

Gwybodaeth amdanoch chi: Er mwyn ein helpu ni i sicrhau bod y gwasanaethau gwastraff rydyn ni'n eu darparu yn diwallu anghenion yr holl drigolion, os ydych chi o'r farn y bydd unrhyw un neu ragor o'r cynigion hyn yn effeithio arnoch chi'n wahanol fel unigolyn oherwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol (oedran, anabledd, tarddiad ethnig, rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, neu oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch cartref yn aelod o'r lluoedd arfog, neu wedi bod yn aelod), rhowch fanylion isod.

Rydw i'n llenwi'r arolwg hwn ...

☐ Fel un o drigolion y Fwrdeistref Sirol

☐ Fel aelod etholedig

☐ Staff y Cyngor

☐ Arall (nodwch)

Fy nghod post yw:

☐ Tŷ ar wahân

☐ Tŷ pêr

☐ Tŷ teras

☐ Fflat

Math o eiddo:

☐ Mae gen i anabledd, salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar fy ngweithgareddau dyddiol

☐ Rydw i'n feichiog/mae gen i blentyn ifanc mewn cewynnau.

Oedran: